Pembrokeshire County Council
Cyngor Sir Penfro

# Strategaeth Gwasanaethau Amgylcheddol

# 2025 i 2030

# (Drafft ar gyfer ymgynghori)

# 1. RHAGAIR

Mae Cyngor Sir Penfro (Sir Benfro) yn sylweddoli mai gwasanaethau craidd, y mae ailgylchu a gwastraff yn un ohonynt, yw'r rhai y mae ein trigolion yn meddwl amdanynt fel gwasanaethau hanfodol y cyngor. Mae hyn yn gosod disgwyliadau ar berfformiad y gwasanaeth.

Bydd y Strategaeth Gwasanaethau Amgylcheddol yn nodi ein nodau i alluogi a chynorthwyo trigolion sy'n gweithio ac yn byw yn Sir Benfro, i'w gwneud yn haws iddynt leihau eu heffaith ar yr amgylchedd a'u hôl troed carbon, a symud Sir Benfro tuag at economi gylchol.

# 2. SIR BENFRO YN EI CHYD-DESTUN

Roedd gan Sir Benfro boblogaeth o 125,000 yng nghanol 2023. Rhagwelir y bydd cyfanswm y boblogaeth yn tyfu i tua 128,500 erbyn 2033 a 130,200 erbyn 2043 (Cyfrifiad 2021 y Swyddfa Ystadegau Gwladol). Mae Sir Benfro yn cwmpasu ardal wledig ei natur o 1,618km2 gyda dros 186 milltir o arfordir. Mae niferoedd y cartrefi presennol ychydig dros 64,000. Mae gan yr awdurdod ddiwydiant twristiaeth ffyniannus gyda mewnlifiad o 1.2 miliwn o ymwelwyr yn aros (2022). Ar gyfartaledd, mae ymwelydd yn aros ychydig dros pedair noson, yn ystod misoedd yr haf gan fwyaf. Mae twristiaeth yn rhan hanfodol o'r economi leol, ond mae hefyd yn cyflwyno heriau, yn enwedig o ran effaith amgylcheddol a rheoli gwastraff.

# 3. EIN GWELEDIGAETH

Mae gan Sir Benfro weledigaeth, ac mae amcanion strategol sefydliadol wedi'u hymgorffori yn yr hyn y mae timau ar draws y cyngor yn ei wneud o ddydd i ddydd. Yr enw cyffredinol ar yr aliniad hwn rhwng cynlluniau hierarchaidd a chyflawni ar draws pob lefel o'r sefydliad yw'r 'Llinyn Aur'. Mae'r Strategaeth Gwasanaethau Amgylcheddol yn ceisio alinio â nodau ac uchelgeisiau trosfwaol y cyngor.

Ein gweledigaeth a'n huchelgais yw fel a ganlyn:

**Mae Sir Benfro yn sir ddi-garbon net erbyn 2030 – byddwn yn hyrwyddo ac yn cefnogi mentrau i gyflawni datgarboneiddio, rheoli ymaddasu i newid hinsawdd a mynd i'r afael â'r argyfwng natur.**

# 4. EIN HAMCANION STRATEGOL

1. Lleihau'r gwastraff a gynhyrchir yn gyffredinol a symudiadau i fyny'r hierarchiaeth wastraff
2. Sicrhau ein bod yn parhau i gwrdd â thargedau ailgylchu statudol presennol ac yn y dyfodol
3. Cefnogi prosiectau economi gylchol a gwelliannau yn y fenter ailddefnyddio
4. Darparu model cynaliadwy ar gyfer glanhau strydoedd a mannau gwyrdd
5. Cynyddu cydymffurfedd gwastraff masnachol trwy'r Gwasanaeth Gwastraff Masnachol ac Ailgylchu
6. Cydweithio gyda darparwyr gwasanaethau twristiaeth
7. Datgarboneiddio Gwasanaethau Amgylcheddol yn unol ag amcan sero net y cyngor erbyn 2030
8. Cyflawni camau gweithredu ac ymrwymiadau cynllun gwasanaeth 2024/25 – 2027/28 y Gwasanaethau Amgylcheddol
9. Cwrdd â'r cyllidebau a nodir yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig

# 5. EIN GWASANAETH PRESENNOL

Mae'r Gwasanaethau Amgylcheddol wedi ymrwymo i gyflwyno arloesedd a gwelliant parhaus. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys timau Glanhau, Mannau Gwyrdd, a Gwastraff ac Ailgylchu, a thîm sy'n canolbwyntio ar wella'r gwasanaeth.

Mae tîm y Gwasanaethau Amgylcheddol yn gyfrifol am ddarparu ystod o wasanaethau rheng flaen i drigolion, busnesau ac ymwelwyr Sir Benfro, a amlinellir isod:

### 5.1 Ailgylchu a Gwastraff

Yn 2019, cyflwynodd Cyngor Sir Penfro wasanaeth gwastraff ac ailgylchu newydd yn dilyn yr Adolygiad o'r Gwasanaeth Gwastraff. Roedd y newid hwn yn seiliedig ar Strategaeth "Tuag at Ddyfodol Diwastraff" Llywodraeth Cymru a'r Glasbrint Casgliadau, sy'n canolbwyntio ar wella perfformiad ailgylchu ac ansawdd

ailgylchu trwy ddidoli casgliadau ailgylchu wrth ymyl y ffordd a chyfyngiadau sy'n gysylltiedig â gwastraff gweddilliol. Diben hwn oedd casglu a gwaredu gwastraff a deunyddiau ailgylchu yn y modd mwyaf effeithiol, effeithlon a chynaliadwy.

- Mae Cyngor Sir Penfro bellach yn cynnal tua 5 miliwn o gasgliadau wrth ymyl y ffordd ar gyfer cartrefi a busnesau bob blwyddyn ledled Sir Benfro. Mae hyn yn cynnwys:
  - **Casgliadau ailgylchu didoli wythnosol wrth ymyl y ffordd**
    - Gwastraff bwyd mewn cadi 23 litr
    - Poteli a jariau gwydr – blwch 44 litr
    - Papur – blwch 44 litr gyda chaead
    - Cerdyn a chardbord – sach amldro 90 litr,
    - Deunydd pecynnu plastig a metel a chartonau bwyd a diod – sach amldro 90 litr
    - Batris cartref – cynhwysydd a ddarperir gan y cartref
    - Trefniadau casglu pwrpasol ar gyfer fflatiau a thai amlfeddiannaeth a'r rhai sydd ag anghenion symudedd





  - **Gwastraff gweddilliol bob tair wythnos** – wedi'i gyfyngu i dri bag fesul cartref mewn bagiau du a ddarperir, gyda lwfans mwy ar waith ar gyfer cartrefi sydd â mwy na phump o drigolion neu sydd ag anghenion casglu gweddilliol ychwanegol.
  - **Gwasanaeth cynhyrchion hylendid amsugnol / cewynnau am ddim bob pythefnos** – gan ddefnyddio bagiau porffor untro – y mae tua 8% o gartrefi yn tanysgrifio iddo ar hyn o bryd.
  - **Gwastraff gardd y codir tâl amdano bob pythefnos** (am 20 wythnos y flwyddyn a chodir tâl amdano) – dewis o finiau olwyn neu fagiau y gellir eu hailddefnyddio yn dibynnu ar ofynion y cartref – ar hyn o bryd mae tua 15% o gartrefi yn tanysgrifio iddo.
  - **Gwasanaeth casglu gwastraff masnach ac ailgylchu dan gontract** sy'n cydymffurfio â'r Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle, gan gynnig atebion pwrpasol i fusnesau bach a mawr, gan gynnwys gosodiadau gwyliau.
  - **Gwasanaeth casglu gwastraff cartref swmpus wrth ymyl y ffordd** a gyflawnir gan gontractwr trydydd parti sy'n gofyn am ffi isel.
- Rhwydwaith o Ganolfannau Gwastraff ac Ailgylchu a chyfleusterau ailgylchu cymunedol.
- Cyfleusterau trosglwyddo gwastraff a rheoli gwaredu ym Mharc Eco Sir Benfro.

### 5.2 Glanhau a Mannau Gwyrdd




- Glanhau strydoedd a thraethau, gan gynnwys rhwydwaith o sbwriel a biniau ailgylchu "wrth fynd", ysgubo strydoedd a chasglu sbwriel yn nhrefi Sir Benfro.
- Gwaredu tipio anghyfreithlon o dir cyhoeddus.
- Pori anghyfreithlon – delio â phori tir sy'n eiddo i'r cyngor gan geffylau heb awdurdod.
- Cerbydau wedi eu gadel a cherbydau ac adeileddau di-fodur.
- Cynnal a chadw tiroedd parciau, gerddi, mannau chwarae a mannau agored.
- Cytundebau lefel gwasanaeth ar gyfer mannau gwyrdd gydag ysgolion a chynghorau tref a chymuned.
- Mynwentydd – cloddio beddau, a chynnal a chadw beddau a thir ym mynwentydd o dan ofal y cyngor.
- Tîm arbenigwyr coedyddiaeth – cynnal gwasanaethau coed yn fewnol ac yn allanol.
- Glanhau adeiladau – sicrhau bod adeiladau sy'n eiddo i'r cyngor yn cynnal amgylchedd gweithio glân a diogel.



### 5.3 Gwella'r gwasanaeth

- Gweithredu deddfwriaeth, gan gynnwys Deddf Diogelu'r Amgylchedd a strategaethau Llywodraeth Cymru "Tuag at Ddyfodol Diwastraff" a "Mwy nag Ailgylchu".
- Datblygu strategaeth a pholisi.
- Rheoli contractau.
- Addysg a chyfathrebu, gan gynnwys newid ymddygiad a chydymffurfio trwy dîm o gynghorwyr amgylchedd lleol.
- Rheoli perfformiad a data.
- Rheoli, gweithredu a chyflawni prosiectau – gan gynnwys Parc Eco Sir Benfro.
- Cydlafurio gyda chontractwr o amgylch y Gwasanaeth Troseddau Amgylcheddol.





## 6. EIN CYNNYDD HYD YN HYN

Dros yr 20 mlynedd diwethaf, bu sawl newid i'n gwasanaethau gwastraff ac ailgylchu yn Sir Benfro, gan ddechrau gyda chyflwyno ailgylchu wrth ymyl y ffordd drwy'r cynllun "Bag Oren" yn 2005, ac yn fwy diweddar y newidiadau i ddidoli wrth ymyl y ffordd yn 2019, gydag amrywiaeth o mentrau lleihau gwastraff, ailddefnyddio a chompostio yn ystod y cyfnod hwn. Rydym hefyd wedi cyflwyno cyfleusterau ailgylchu "wrth fynd" a chyfleusterau ailgylchu mewn digwyddiadau, yn ogystal â Gwasanaethau Ailgylchu Gwastraff Masnachol, i gefnogi ailgylchu gartref, yn y gwaith ac wrth ymweld â Sir Benfro.


Fel rhan o Strategaeth Llywodraeth Cymru "Tuag at Ddyfodol Diwastraff" a deddfwriaeth gysylltiedig, bu'n ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru gyrraedd targedau ailgylchu statudol. Cychwynnodd y rhain yn 2009/10, gyda tharged o 40% tan 2024/25 ac yna darged o 70%. Disgwylir y bydd Llywodraeth Cymru yn codi'r targedau hyn o fewn yr ychydig flynyddoedd nesaf er mwyn cyrraedd y nod polisi gofynnol o ddim gwastraff erbyn 2050.

Mae'r llun isod yn dangos perfformiad Sir Benfro dros y ddwy ddegawd ddiwethaf yn unol â'r targedau statudol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Yn ystod y cyfnod hwn hefyd, bu newidiadau sylweddol i'n gwastraff gweddilliol a'i ddull o waredu, gyda gostyngiad sylweddol yn y gwastraff a anfonir yn uniongyrchol i safleoedd tirlenwi o ychydig llai na 60,000 tunnell yn 2004/05 i sero ers mis Mai 2024.


**Ffigur 1: Perfformiad ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio hanesyddol Sir Benfro**



**Ffigur 2: Cyfanswm tunelledd tirlenwi Sir Benfro**




**Ffigur 3: Perfformiad ailgylchu Sir Benfro**




Am y pum mlynedd diwethaf, mae Sir Benfro wedi bod yn un o'r awdurdodau sy'n perfformio orau yng Nghymru, cyflawniad gwych o ganlyniad i ymroddiad ein trigolion, busnesau ac ymwelwyr. Er bod cyfradd ailgylchu statudol 2024/25 o 70% wedi'i bodloni'n gynnar, mae'r taflwybr ar i fyny wedi arafu. Mae ein perfformiad ar gyfer 2023/24 yn parhau i ragori ar y targed ar lefel o 72%, ond mae llawer o ffordd i fynd eto i gyrraedd y 100% sy'n cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio erbyn 2050.

**Llun 1: Parc Eco Sir Benfro – cyfleuster trosglwyddo gwastraff**



O fewn y Gwasanaethau Amgylcheddol, rydym hefyd wedi gweld gostyngiad mewn tipio anghyfreithlon a chyflwyniad gweithdrefn gadarn ar draws y sir ar gyfer cerbydau wedi eu gadael, sydd wedi arwain at ostyngiad yn nifer y cerbydau sydd wedi cael eu gadael y mae angen i Gyngor Sir Penfro eu gwaredu.

Mae dangosyddion glanhau strydoedd trwy'r system reoli annibynnol LEAMS (System Reoli ar gyfer Archwilio'r Amgylchedd Lleol) hefyd yn uwch na chyfartaledd Cymru yn y blynyddoedd diwethaf, sydd yn gyflawniad arwyddocaol o ystyried y lefelau uchel o dwristiaeth a brofwyd gan y sir. Mae'r fethodoleg ar gyfer arolygon LEAMS yn adlewyrchu'r Cod Ymarfer ar gyfer Sbwriel a Gwastraff a Chanllawiau Cysylltiedig 2007, sy'n ymwneud â Rhan IV o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

# 7. YR ACHOS DROS NEWID

Gweledigaeth ein cynllun corfforaethol yw "gweithio gyda'n gilydd, gwella bywydau".Mae'r cabinet yn ymdrechu i Sir Benfro fod yn lle gwych i fyw, gweithio ac ymweld ag ef. Byddwn yn arwain drwy esiampl drwy leihau ein hallyriadau carbon a chynyddu gwydnwch amgylcheddol i ymdrin ag effeithiau newid hinsawdd ac felly gwella ansawdd bywyd ein trigolion.

## 7.1 Hierarchiaeth wastraff

Mae'r hierarchiaeth wastraff yn gynllun sy'n cael ei gydnabod yn fyd-eang sy'n dangos sut y dylai gweithredwyr gwasanaethau fod yn blaenoriaethu llifoedd gwastraff, gan ganolbwyntio ar atal gwastraff ac yna gweithio i lawr tuag at yr opsiwn gwaethaf o waredu.Ar hyn o bryd, mae ein gwasanaeth wedi'i sefydlu i reoli gwastraff trwy ailgylchu, adfer a gwaredu. Mae angen i ni drosglwyddo ein gwasanaeth tuag at lai o waredu a mwy o ailddefnyddio a lleihau, gan weithio tuag at atal a lleihau. Mae ein strategaeth yn darparu'r fframwaith cyflawni i alluogi esblygiad y gwasanaeth hwn.

**Llun 2: Hierarchiaeth wastraff**




**Atal** – mae atal gwastraff yn canolbwyntio ar leihau faint o wastraff rydym yn ei greu fel cymdeithas, prynu llai, a defnyddio llai o ddeunyddiau yn ystod prosesau dylunio a gweithgynhyrchu.

**Ailddefnyddio** – mae ailddefnyddio deunyddiau a chynhyrchion yn ymestyn eu cylch bywyd ac yn eu hatal rhag cael eu gwaredu'n ddiangen, neu o bosibl eu hisgylchu i fod yn gynnyrch llai cynaliadwy.

**Ailgylchu** – mae ailgylchu yn canolbwyntio ar addasu deunyddiau gwastraff yn ddeunyddiau a chynhyrchion newydd.

**Adferiad arall** – y broses o adennill rhywfaint o werth o ddeunyddiau gwastraff – er enghraifft, gwastraff bwyd yn cael ei droi'n gompost.


**Gwaredu** – y dewis olaf, lle caiff gwastraff ei anfon i safleoedd tirlenwi neu ei losgi.

Mae symud i economi gylchol yn allweddol i leihau ein hallyriadau carbon yn sylweddol a gall hefyd wella canlyniadau economaidd a chymdeithasol. Mae'r ysgogwyr, a'r fframwaith deddfwriaethol a strategol sydd ar waith i gefnogi ein cam tuag at economi fwy cylchol, wedi'u crynhoi isod:

**7.2 Y cyd-destun byd-eang, cenedlaethol a lleol**

Mae'r gwaith o ddarparu casgliadau gwastraff ac ailgylchu y Gwasanaethau Amgylcheddol yn cael ei yrru gan ddeddfwriaeth sy'n esblygu'n gyson a thargedau a osodir yn fyd-eang, yn genedlaethol, ac yn lleol yn Sir Benfro.

**Ffigur 4: Y cyd-destun byd-eang, cenedlaethol a lleol**




**Ysgogwyr byd-eang**

Newid hinsawdd yw mater diffiniol ein hoes a'r bygythiad mwyaf i'n llesiant, yn fyd-eang ac yn lleol. Bydd yn rhoi pwysau ar ecosystemau, seilwaith a thirwedd ac yn bygwth llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Er mwyn osgoi effaith waethaf yr effeithiau hyn, mae angen i ni gymryd camau gweithredu brys.

Mae'r marchnadoedd gwaredu sy'n gysylltiedig â gwastraff ac ailgylchu hefyd yn cael eu heffeithio gan ffactorau byd-eang a all gael effaith sylweddol ar y galw am ddeunyddiau y mae angen eu gwaredu a'u hailgylchu, a chyflenwadau ohonynt.

**Ysgogwyr cenedlaethol**

Mae deddfwriaeth ynghylch gwastraff ac ailgylchu wedi'i gosod gan nifer o gyrff, sef yr Undeb Ewropeaidd, Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn ychwanegol at reoliadau gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd.

**Llywodraeth y DU**

Dros y blynyddoedd, mae nifer o Ddeddfau, rheoliadau a deddfwriaeth wedi'u cyflwyno ynghylch gofynion gwastraff ac ailgylchu ledled y DU.

- **Mae Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.**
  Yn darparu deddfwriaeth a chanllawiau ynghylch gwaredu gwastraff. Mae'r ddyletswydd gofal yn rhan o'r ddeddfwriaeth hon, ac yn datgan ei bod yn ddyletswydd gyfreithiol ar y rhai sy'n delio â mathau penodol o wastraff i sicrhau ei fod yn cael ei reoli'n ddiogel. Mae'r Ddeddf yn amlinellu rhwymedigaethau busnesau ac unigolion i warchod yr amgylchedd, yn ogystal â phrosesau gorfodi a chosbau am beidio â chydymffurfio.

- **Cyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff yr UE.**
  Mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff yn gosod rhai egwyddorion rheoli gwastraff sylfaenol. Mae'n mynnu bod gwastraff yn cael ei reoli heb beryglu iechyd dynol a niweidio'r amgylchedd.
- **Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011.**
  Mae'r rheoliadau hyn yn gweithredu Cyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff yr UE 2008/98 ar ei newydd wedd, sy'n gosod gofynion ar gyfer casglu, cludo, adennill a gwaredu gwastraff.
- **Rheoliadau Gwastraff a Reolir (Cymru a Lloegr) 2012.**
- **Rheoliadau Gwastraff (Economi Gylchol) (Diwygio) 2020.**
- **Deddf yr Amgylchedd 2021.**
  Mae Deddf yr Amgylchedd 2021 yn gyfraith y DU sy’n gosod targedau amgylcheddol, cynlluniau gwella, gwaith monitro a gorfodi, a mesurau eraill.

## Llywodraeth Cymru

Mae nifer o fentrau polisi allweddol a deddfwriaeth yn ymwneud â gwastraff ac ailgylchu sydd wedi’u cyflwyno gan Lywodraeth Cymru ers 2002.

- **Strategaeth Llywodraeth Cymru 2002: Yn Gall gyda Gwastraff**
  Strategaeth gyntaf Llywodraeth Cymru i ddarparu model ar gyfer rheoli gwastraff yn gynaliadwy a phennu cyfres o dargedau. Gosododd darged gofynnol o 40% o ailgylchu a chompostio cyfunol ar gyfer gwastraff dinesig i bob awdurdod lleol yng Nghymru erbyn 2009/10.
- **Rheoliadau'r Cynllun Lwfansau Tirlenwi (Cymru) 2004**
  Yn pennu’r symiau mwyaf posibl o gwastraff dinesig pydradwy (fel bwyd, gwastraff gardd, papur a chardbord). Os bydd awdurdod lleol yn mynd dros y swm targed, mae'n agored i gosb ariannol o £200 am bob tunnell.
- **Strategaeth Llywodraeth Cymru 2010: Tuag at Ddyfodol Diwastraff – Cymru’n Un: Cenedl Un Blaned**
  Strategaeth wastraff Llywodraeth Cymru i Gymru; yn disgrifio ar lefel uchel sut y byddwn yn ymdrin â gwastraff yng Nghymru er mwyn sicrhau manteision nid yn unig i’r amgylchedd ond hefyd i’n heconomi a’n llesiant cymdeithasol.
- **Mesur Gwastraff (Cymru) 2010**
  Mae’r mesur hwn yn gwneud darpariaeth i leihau faint o wastraff a sbwriel sydd yng Nghymru ac i gyfrannu at ddatblygu dull mwy effeithiol a chynaliadwy o ymdrin â threfniadau rheoli gwastraff. Yn gosod targedau statudol ar gyfer canran y gwastraff dinesig y mae'n rhaid i awdurdodau lleol ei ailgylchu, ei baratoi i'w ailddefnyddio neu ei gompostio. Mae’r targedau statudol hyn yn gynyddrannol, gan godi hyd at 70% erbyn 2024/25.  Y swm y mae awdurdod lleol yn atebol iddo yw £200 am bob tunnell fetrig sy’n is na’r swm targed.
- **Glasbrint Casgliadau Cynllun y Sector Trefol 2011**
  Canllawiau statudol ar gasglu ar wahân (Rheoliad 13 o Reoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011). Yn gosod targedau ar gyfer atal gwastraff, ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio, a thrin a gwaredu gwastraff yn gynaliadwy.
  Mae'r Glasbrint Casgliadau yn cael ei adolygu ar hyn o bryd.
- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**
  Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol yw sicrhau bod gan genedlaethau’r dyfodol yng Nghymru o leiaf yr un ansawdd bywyd ag sydd gennym ar hyn o bryd. Nod y strategaeth hon yw canolbwyntio ar reoli gwastraff yn unol ag egwyddorion uchaf yr hierarchiaeth wastraff, sy'n cynnwys atal gwastraff, ailddefnyddio ac ailgylchu, a symud deunyddiau tuag at ddull cylchol yn hytrach na llinellol. Mae hyn yn cael ei wneud i warchod adnoddau naturiol, lleihau neu ddileu rhyddhau nwyon tŷ gwydr niweidiol, ac amddiffyn yr amgylchedd a natur ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.




- **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016**
  Er mwyn hyrwyddo rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol a bioamrywiaeth yng Nghymru, mae adran 6 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cyhoeddus gynnal a gwella bioamrywiaeth.
  Roedd y Ddeddf hefyd yn cyflwyno trefniadau newydd mewn perthynas â gwahanu a chasglu gwastraff. Nodau'r darpariaethau yw gofyniad i fusnesau a chynhyrchwyr gwastraff eraill wahanu deunyddiau ailgylchu, ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnal gwasanaeth casglu ar wahân ar gyfer

deunyddiau ailgylchu wedi'u gwahanu, a gwaharddiad ar ddefnyddio deunyddiau ailgylchadwy at ddibenion troi gwastraff yn ynni a'u hanfon at safleoedd tirlenwi.

- **Strategaeth Llywodraeth Cymru 2021: Mwy nag Ailgylchu (yr economi gylchol)**
  Yn 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Mwy nag Ailgylchu – strategaeth i wneud economi gylchol yng Nghymru yn realiti. Mae hon wedi gosod targed diwastraff cyffredinol erbyn 2050 a thargedau ailgylchu uchelgeisiol ar gyfer cynghorau yn y cyfnod interim.
- **Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023**
  Yn ei gwneud yn drosedd i gyflenwi neu gynnig cyflenwi (gan gynnwys am ddim) rai cynhyrchion plastig untro i ddefnyddwyr yng Nghymru, oni bai fod esemptiad yn berthnasol.
- **Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd ar gyfer Cymru 2024**
  Mae'r strategaeth bresennol hon yn nodi'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud eisoes, a'r hyn y byddwn yn ei wneud yn y dyfodol, i ymateb i'r newid yn yr hinsawdd. Mae hyn yn cwmpasu nifer o ddiwydiannau a sectorau ond mae hefyd yn cynnwys economi gylchol a datgarboneiddio.
- **Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle**
  Yn 2024, daeth gofyniad cyfreithiol i bob busnes, elusen a sefydliad sector cyhoeddus ddidoli eu gwastraff i'w ailgylchu, i wella ansawdd a swm ailgylchu o weithleoedd, yn gyfraith yng Nghymru. Mae deunyddiau ar gyfer ailgylchu yn cynnwys bwyd, papur, cerdyn, gwydr, metelau, plastig, cartonau, tecstilau heb eu gwerthu a chyfarpar trydanol bach heb ei werthu. Mae'r rheoliadau hefyd yn gosod gwaharddiad ar waredu gwastraff bwyd mewn garthffosydd. Bydd camau nesaf y Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle yn ceisio casglu deunyddiau ychwanegol o eiddo masnachol, gan gynnwys yr holl decstilau ac eitemau trydanol bach. Mae angen inni felly sicrhau bod gennym gapasiti addas i ymdopi â galw am ddeunyddiau yn y dyfodol.

Ar hyn o bryd, mae rhwymedigaeth statudol ar gynghorau i gyflawni'r targedau allweddol a ganlyn, wedi'u gosod yn erbyn mesuriad sylfaenol 2006/07:

**Erbyn 2025:**

• Gostyngiad o 26% mewn gwastraff • Dim gwastraff i safleoedd tirlenwi • Gostyngiad o 50% mewn gwastraff bwyd y gellir ei osgoi • 70% ailgylchu

**Erbyn 2030**

• Gostyngiad o 33% mewn gwastraff • Gostyngiad o 60% mewn gwastraff bwyd y gellir ei osgoi

**Erbyn 2050**

• Defnydd o adnoddau un blaned • Gostyngiad o 62% mewn gwastraff • Dim gwastraff • Carbon sero net

### 7.3 Corff rheoleiddio

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn sicrhau bod amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal a'u defnyddio'n gynaliadwy, nawr ac yn y dyfodol. Mae ganddo hefyd ystod o rolau a chyfrifoldebau sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd, natur a llygredd. Mae'n gyfrifol am gyhoeddi a rheoleiddio trwyddedau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â'r seilwaith gwastraff ac ailgylchu ledled Cymru, ac mae hefyd yn cyhoeddi rheoliadau a gweithdrefnau ar gyfer y seilwaith hwn y mae'n rhaid i weithredwyr gadw atynt er mwyn parhau i gydymffurfio.

### 7.4 Deddfwriaeth y dyfodol

**Cyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr**

Bydd cyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr yn rhoi'r cyfrifoldeb am reoli cylch bywyd deunydd pecynnu yn ôl ar weithgynhyrchwyr deunydd pecynnau, gan gynnwys y costau sy'n gysylltiedig â chasglu, ailgylchu a gwaredu eu cynhyrchion. Bydd gweithgynhyrchwyr yn cael eu hysgogi i ddylunio a chynhyrchu deunydd pecynnu wrth gadw mewn golwg y gallu i'w ailgylchu.

Efallai y bydd cyfansoddiad y deunydd pecynnu a gasglwn yn y dyfodol yn newid wrth i weithgynhyrchwyr addasu i'r newid hwn a chreu deunydd pecynnu sy'n haws ei ailgylchu. Mae'n bosibl y bydd Sir Benfro'n gweld cynnydd yn y mathau o ddeunydd pecynnu y gellir eu hailgylchu ac yn ei dro yn gweld cynnydd mewn meintiau deunyddiau drwy ein casgliadau ailgylchu ymyl y ffordd a'n canolfannau gwastraff ac ailgylchu. Mae hyn yn cynnwys y gofyniad am gasgliadau ffilm plastig o gartrefi a busnesau erbyn 2027.

Bydd hyn yn symud y goblygiadau ariannol ar gyfer rheoli gwastraff o drethdalwyr i'r cynhyrchwyr, gan ryddhau arian cyhoeddus ar gyfer prosiectau amgylcheddol neu seilwaith eraill.

Mae angen inni sicrhau bod ein fflyd casglu a'n seilwaith gwastraff yn gallu ymdopi â chynnydd mewn deunyddiau a chyfeintiau newydd yn y blynyddoedd i ddod.

**Cynllun Dychwelyd Ernes**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyflwyno cynllun dychwelyd ernes i Gymru, gan gefnogi'r wlad i bontio i economi gylchol.Yn ystod yr wythnosau diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd yn datblygu Cynllun Dychwelyd Ernes a fydd yn darparu budd i Gymru. Mae hyn yn gofyn am ddull sy'n fwy nag ailgylchu, sef un a fydd yn cefnogi Cymru i adeiladu ar y cynnydd hyd yma a chymryd y cam nesaf i gefnogi pontio at ailddefnyddio. Bydd hyn yn cydnabod yr ymdrech y mae pawb ledled Cymru wedi'i rhoi i sicrhau'r cynnydd y mae Cymru wedi'i wneud ym maes ailgylchu ac y bydd cyflwyno cynllun dychwelyd ernes yn adeiladu ar y cynnydd y mae pawb wedi gweithio mor galed i'w gyflawni ac nid yn amharu arno.

Disgwylir gwybodaeth am Gynllun Dychwelyd Ernes Cymru, ond, yn seiliedig ar yr wybodaeth sydd wedi dod i law ynghylch y cynllun dychwelyd ernes cenedlaethol a gynigiwyd yn flaenorol, gallai hyn helpu i leihau faint o ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu yn y ffrwd gwastraff gweddilliol a swm y sbwriel yn Sir Benfro gan y byddai deunyddiau o fewn cwmpas â gwerth ac felly'n llai tebygol o gael eu taflu. Gall hyn yn ei dro hefyd helpu i leihau costau glanhau sbwriel.

Fodd bynnag, mae risg hefyd y gallai fod gostyngiad yn nifer y cynwysyddion diodydd o fewn cwmpas sy'n cael eu cyflwyno wrth ymyl y ffordd i'w hailgylchu ac y gellid cael effaith andwyol ar gyfradd ailgylchu'r cyngor a'r lefelau incwm a gyflawnir i gefnogi'r gwasanaeth.

Mae'n bwysig felly ein bod yn anelu at ailgylchu cymaint o'n gwastraff â phosibl a pharhau i gynyddu ein cyfradd ailgylchu i fwy na 70%.

**Cynllun Masnachu Allyriadau**

Bydd Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn cael ei ehangu i gynnwys llosgi deunyddiau sy'n seiliedig ar ffosiliau gan losgwyr gwastraff yn 2028 a bydd yn gosod cap cenedlaethol ar gyfanswm yr allyriadau, a fydd yn lleihau dros amser. Bwriad y cynllun masnachu yw lleihau allyriadau ac ôl troed carbon, annog pobl i symud oddi wrth danwydd ffosil, a hyrwyddo technolegau glanach ac adnewyddadwy.

Pe bai'r lefelau ailgylchu presennol yn cael eu cynnal heb unrhyw leihau gwastraff, byddai'r gost wedi'i modelu rhwng £700,000 ac £1 miliwn erbyn 2035. Fodd bynnag, mae cyfle i leihau hon i £400,000 os byddwn yn cyrraedd targedau ailgylchu a lleihau gwastraff.

Mae angen i ni felly gyfyngu ar effaith y Cynllun Masnachu Allyriadau trwy leihau faint o wastraff gweddilliol a gynhyrchir ac a anfonir i gyfleusterau ynni o wastraff, a deunyddiau sy'n seiliedig ar ffosiliau megis plastig, trwy osgoi, lleihau neu ailgylchu, gan leihau effeithiau amgylcheddol ac ariannol y cynllun hwn.

## 7.5 Ysgogwyr lleol

Yn 2023, rhyddhaodd Cyngor Sir Penfro ei strategaeth gorfforaethol pum mlynedd a'i amcanion llesiant, gan nodi mai un o'i uchelgeisiau oedd hyrwyddo a chefnogi mentrau i gyflawni datgarboneiddio, rheoli ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd a mynd i'r afael â'r argyfwng natur.

Mae Sir Benfro yn cydnabod mai newid yn yr hinsawdd yw un o faterion diffiniol ein hoes a'r bygythiad mwyaf i'n llesiant – yn fyd-eang ac yn lleol – ac mae wedi ymrwymo i'w tharged ar gyfer 2030 o fod yn gyngor carbon sero net a rheoli ein tir a'n hasedau i sicrhau bod yr amgylchedd naturiol yn cael ei wella a'i warchod.

Ymhellach, bydd y cyngor yn canolbwyntio adnoddau ar ddarparu gwasanaethau craidd megis priffyrdd, ailgylchu a gwastraff, diogelu'r cyhoedd, a hamdden a diwylliant sy'n cyfrannu at ansawdd bywyd pob cymuned, gan sicrhau bod trigolion yn byw mewn cymdogaethau sy'n lân, gwyrdd, diogel ac egnïol, ac sy'n cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol.

Bydd y strategaeth hon yn cyd-fynd ag ymrwymiadau strategaeth gorfforaethol y cyngor i wneud y canlynol:

- Parhau i wella a chynnal ailgylchu ac ailddefnyddio yn unol â strategaeth Llywodraeth Cymru, gan gynnwys "Tuag at Ddyfodol Diwastraff" a "Mwy nag Ailgylchu" a deddfwriaeth gysylltiedig
- Cynnal a cheisio gwella ansawdd yr amgylchedd lleol (mewn strydoedd, meysydd cyhoeddus, parciau, cefn gwlad a thraethau) trwy, er enghraifft, ganolbwyntio ar leihau troseddau amgylcheddol, megis tipio anghyfreithlon a thaflu sbwriel

Un o'n llinynnau aur corfforaethol sy'n sail i bopeth a wnawn yw **newid hinsawdd** ac mae nifer o amcanion a gefnogir gan y strategaeth hon wedi'u cynnwys yn ein rhaglen weinyddu gan eu bod yn berthnasol i hyn:

- Hyrwyddo pwysigrwydd cynaliadwyedd amgylcheddol, gan ennill calonnau a meddyliau fel bod pawb yn ein cymunedau yn cael eu hysbrydoli i chwarae eu rhan
- Parhau i fod yn awdurdod lleol blaenllaw yng Nghymru o ran perfformiad ailgylchu
- Cynnal ein perfformiad fel un o'r awdurdodau ailgylchu gorau yn y DU drwy, er enghraifft, fuddsoddi mewn parc eco o'r radd flaenaf a chefnogi prosiectau economi gylchol
- Cael gwared ar garbon o weithrediadau'r cyngor, gan gynnwys allyriadau ecsôst ein fflyd cerbydau
- Buddsoddi mewn trafnidiaeth gyhoeddus a seilwaith i gefnogi'r newid i gerbydau tanwydd trydan/hydrogen
- Cynnal a cheisio gwella bioamrywiaeth ac ecoleg ledled Sir Benfro yn unol â'n dyletswyddau o dan Ddeddf yr Amgylchedd
- Rheoli ein tir a'n hasedau i sicrhau bod yr amgylchedd naturiol yn cael ei wella a'i warchod
- Gwneud y mwyaf o botensial ein hasedau (tir ac adeiladau) i wella llesiant cymunedol a chreu lleoedd trwy, er enghraifft, ddefnyddio trosglwyddiadau asedau cymunedol
- Hyrwyddo a chefnogi mentrau i gyflawni datgarboneiddio, rheoli ymaddasu i'r newid hinsawdd a mynd i'r afael â'r argyfwng natur
- Cefnogi cymunedau, gan gynnal perthnasoedd cadarnhaol i helpu i adeiladu cymunedau egnïol, dyfeisgar, cysylltiedig, cynaliadwy a chreadigol

### 7.6 Heriau cyllidebol

Mae Sir Benfro yn wynebu hinsawdd ariannol hynod heriol ar hyn o bryd. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ni fel awdurdod ganolbwyntio ein sylw ar opsiynau arbedion nad ydynt yn effeithio ar ein cyfrifoldebau statudol. Yn wyneb hyn, mae rhai penderfyniadau anodd iawn y bydd yn rhaid eu gwneud.

Ar hyn o bryd, mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn nodi bwlch cyllido 'mwyaf tebygol' o £64 miliwn dros y cyfnod rhwng 2025/26 a 2028/29.

O'r herwydd, mae'n ofynnol i bob gwasanaeth ddarparu nifer o opsiynau arbed ac mae'n ofynnol i Wasanaethau Amgylcheddol Sir Benfro ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol o dan bwysau cyllidebol cynyddol heriol. Mae'r blaenoriaethau a amlinellir yn y strategaeth hon wedi cymryd i ystyriaeth elfennau o newid sydd eu hangen i gefnogi'r hinsawdd ariannol hon. Y targedau a heriau ariannol allweddol yw fel a ganlyn:

- Sicrhau bod yn rhaid i bob gwasanaeth y codir tâl amdano adennill costau llawn
- Sicrhau bod opsiynau arbed blynyddol yn cael eu darparu

- Deall effaith y newidiadau mewn deddfwriaeth/polisi ar gyllidebau, yn unol â’r effaith ar gostau gan y fenter newid hinsawdd a chynaliadwyedd hon – gallai’r Cynllun Masnachu Allyriadau godi taliadau ychwanegol o rhwng £700,000 ac £1 miliwn

Mae hefyd nifer o flaenoriaethau a chamau gweithredu y gellir eu cyflawni wedi'u hamlinellu yn y strategaeth hon a fydd angen buddsoddiad cyfalaf. Bydd tîm y Gwasanaethau Amgylcheddol yn parhau i archwilio cyfleoedd ariannu drwy Lywodraeth Cymru a chyrff ariannu eraill i gefnogi unrhyw achosion busnes i Fwrdd Cyfalaf Cyngor Sir Penfro yn y dyfodol.

### 7.7 Twristiaeth

Mae Sir Benfro, ardal wledig hardd, yn enwog am ei harfordir syfrdanol a'i harddwch naturiol. Mae twristiaeth yn denu 5.4 miliwn o ymwelwyr bob blwyddyn (2022). Gyda'r mewnlifiad tymhorol o ymwelwyr ar sail ymweliadau am y dydd a gwyliau gartref, mae'r sir yn wynebu sawl her sy'n ymwneud â thwristiaeth. Mae rheoli gwastraff a glanhau strydoedd a thraethau yn dod yn fater o bwys. Felly mae angen inni ganolbwyntio ar y canlynol:

- Rheoli ymchwydd tymhorol o wastraff
- Gwelliannau i finiau ailgylchu cyhoeddus “wrth fynd”
- Gweithio gyda busnesau i hyrwyddo arferion ailgylchu lleol
- Hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy sy'n hyrwyddo teithio cyfrifol i ardaloedd naturiol sy'n gwarchod yr amgylchedd ac yn cynnal llesiant y bobl leol
- Gweithio gyda chynghorau tref a chymuned i ddarparu cyfleusterau a chefnogi'r amgylchedd lleol
- Gweithio gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro i gefnogi a gwella cynaliadwyedd ar gyfer ein hamgylchedd naturiol
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru ynghylch opsiynau sy’n gysylltiedig â’r ardoll dwristiaeth

## 8. YSGOGWYR PELLACH AR GYFER NEWID

Rydym wedi cael llwyddiant mawr wrth gynyddu faint o wastraff rydym yn ei ailgylchu yn Sir Benfro, a hoffem ddiolch i’n trigolion am ymgysylltu â’n gwasanaethau i gyflawni’r llwyddiant hwn. Rydym am gryfhau ein perthynas gyda thrigolion fel y gallwn barhau i **weithio gyda’n gilydd** i wella’r sir.

Yn Sir Benfro, rydym yn casglu’r lefelau gwastraff bwyd uchaf, sef 129kg fesul deiliad tŷ y flwyddyn (2022/23), ac yn cynhyrchu'r gwastraff gweddilliol isaf fesul cartref, sef 166kg fesul deiliad tŷ y flwyddyn (2022/23). Er gwaethaf y llwyddiant hwn, mae mwy y gallwn ei wneud i gynyddu ein cyfradd ailgylchu ymhellach y tu hwnt i 70%, lleihau ein heffaith carbon, sicrhau bod sgil-gynhyrchion gwastraff cyffredinol yn lleihau, a chynyddu ailddefnyddio i hyrwyddo economi gylchol.

### Cyfansoddiad gwastraff

Yn 2022, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ddadansoddiad o’n gwastraff gweddilliol cartref wrth ymyl y ffordd ac mewn canolfannau gwastraff ac ailgylchu ar gyfer holl awdurdodau lleol Cymru. Mae canlyniadau Sir Benfro i’w gweld yn y diagram darluniadol isod.

**Ffigur 5: Beth arall y gellir ei ailgylchu?**




Dengys y dadansoddiad, er gwaethaf gwasanaeth ailgylchu wythnosol cynhwysfawr Sir Benfro, fod 48% o gynnwys y bagiau gweddilliol yn ddeunyddiau y gellid eu hailgylchu naill ai wrth ymyl y ffordd neu yn y canolfannau gwastraff ac ailgylchu.Mae'r 52% sy'n weddill yn eitemau nad oes modd eu hailgylchu ar hyn o bryd a dylid eu rhoi mewn bagiau gweddilliol. Mae 48% o ddeunyddiau ailgylchadwy yn y ffrwd gwastraff gweddilliol yn cynrychioli gwerth incwm a gollwyd o bosibl o tua £196,000 ac mae'n cynrychioli cost gwaredu amcangyfrifedig i Sir Benfro, y gellid ei hosgoi, o £406,000 y flwyddyn (yn seiliedig ar dunelli a phrisiau 2023/24).

Mae'n bwysig felly ein bod yn parhau i edrych ar ffyrdd o leihau faint o ddeunydd ailgylchadwy sy'n cael ei roi yn y bagiau gwastraff gweddilliol.

O fewn y strategaeth hon, rydym wedi amlinellu ein tair blaenoriaeth sy'n ceisio cefnogi trigolion a busnesau i leihau eu gwastraff, cynyddu ailddefnyddio ac ailgylchu, a datgarboneiddio ein gweithgareddau fel ein bod yn cyflawni ein hamcanion corfforaethol a strategol. Rydym yn cydnabod y bydd angen inni ymgysylltu â thrigolion a busnesau lleol er mwyn gallu cyflawni'r amcanion hyn.

## 9. GWELEDIGAETH AR GYFER Y STRATEGAETH

Er gwaethaf ein cynnydd yn Sir Benfro, rydym yn cydnabod bod yn rhaid i ni barhau i ddatblygu ein gwasanaethau i ymateb i'r heriau ac ysgogwyr a amlinellwyd uchod.

Rydym hefyd yn wynebu byd sy'n newid yn gyflym ac mae angen inni sicrhau bod gennym yr adnoddau a'r gweithlu i ystyried yr opsiynau sydd eu hangen i symud y gwasanaeth drwy'r cyfnod heriol hwn.

O ganlyniad, mae'r strategaeth hon yn canolbwyntio ar bedair blaenoriaeth allweddol i osod gweledigaeth ar gyfer Is-adran Gwasanaethau Amgylcheddol gynaliadwy, effeithlon ac effeithiol i barhau i gyflawni ein dyletswyddau statudol ar gyfer Cyngor Sir Penfro.

Y pedair prif flaenoriaeth

1. Gwella atal ac ailddefnyddio ein hadnoddau
2. Adeiladu ar ein perfformiad ailgylchu yn unol â'r economi gylchol a sero net
3. Gwella cynaliadwyedd ein strydoedd, traethau a mannau gwyrdd
4. Ymgysylltu a chydymffurfio trwy newid ymddygiad

## Blaenoriaeth 1 – Gwella atal ac ailddefnyddio ein hadnoddau

Ein blaenoriaeth yw lleihau gwastraff cyffredinol ymhellach yn Sir Benfro a chynyddu faint rydym yn ei ailddefnyddio i osgoi gwaredu, er mwyn cefnogi'r economi gylchol, parhau i ddefnyddio deunyddiau am gyfnod hwy, a diogelu ein hadnoddau.

Mae lleihau gwastraff wrth wraidd y strategaeth Gwasanaethau Amgylcheddol hon. Bydd ein hymagwedd yn canolbwyntio ar helpu trigolion a busnesau i leihau eu gwastraff a galluogi gwell ailddefnyddio.

**Yr hyn rydym yn ei wneud ar hyn o bryd:**

- Ymgyrch 'Gwnewch fel y Jonesiaid'
- Darparu cynllun taliad arian-yn-ôl am gewynnau y gellir eu ailddefnyddio
- Gwasanaeth casglu gwastraff swmpus yn gweithio gyda Pembrokeshire Frame, gan ddarparu datrysiadau ailddefnyddio ar gyfer eitemau addas
- Gweithio gydag elusennau yn y sir, gan gynnwys Diwydiannau Norman a Paul Satori, ar brosiectau sy'n seiliedig ar ailddefnyddio ac adnewyddu
- Rydym wedi sefydlu sawl gweithdy ailddefnyddio drwy gyllid grant economi gylchol a Diwydiannau Norman
- E-feiciau – benthyciad beic trydan – cynllun prawf 2024/25
- Wedi darparu "cyfeiriadur atgyweirio" sy'n rhestru busnesau, contractwyr a thechnegwyr sy'n cynnig gwasanaethau atgyweirio
- Cefnogi'r "Llyfrgell Pethau",sef lle gall trigolion fenthyg pethau sydd eu hangen arnynt ond nad ydynt yn berchen arnynt, rhoi pethau y maent yn berchen arnynt ond nad oes eu hangen arnynt mwyach, a chwrdd â phobl i rannu gwybodaeth a sgiliau yn y gymuned
- Casgliadau gwastraff masnach ac ailgylchu yn unol â'r Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle
- Digwyddiadau sirol – mae amrywiaeth o gyfleusterau ailgylchu ar gael fel rhan o gytundeb gwastraff ac ailgylchu ar gyfer trefnwyr digwyddiadau yn unol â'r Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle

**Yr hyn yr ydym am ei gyflawni:**

- Lleihau'r gwastraff cyffredinol a gynhyrchir fesul cartref
- Annog newid ymddygiad cadarnhaol ac addysg ar atal, lleihau ac ailddefnyddio gwastraff ar gyfer cartrefi a busnesau
- Gwella ac ehangu gwasanaethau ailddefnyddio yn Sir Benfro

**Sut byddwn yn cyflawni hyn:**

**Cyfathrebu ac ymgysylltu**

Mae negeseuon cyson a chlir yn hanfodol i gefnogi newid ymddygiad ehangach. Rydym yn cydnabod bod trigolion ar draws Sir Benfro eisiau bod â'r gallu i wneud y penderfyniadau cywir ar sut i leihau eu heffaith ar yr amgylchedd. Rydym am wella ein hymgysylltiad â thrigolion, gan chwilio am ffyrdd mwy effeithiol o gyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth.

Byddwn yn gweithio tuag at y nod hwn drwy wneud y canlynol:

- Hyrwyddo sut y gall trigolion ailddefnyddio a thrwsio eu heitemau trwy ymgyrchoedd wedi'u targedu a hyrwyddo sut y gall trigolion gael mynediad at y mathau hyn o wasanaethau
- Gosod cynllun cyfathrebu yn amlinellu gweithgareddau allweddol a themâu hyrwyddo a sut y cânt eu cyflwyno
- Annog mwy o ddefnydd o Fy Nghyfrif i wella cymorth a phrofiad cwsmeriaid
- Parhau i hyrwyddo a chefnogi ymgyrchoedd cenedlaethol fel *Bydd Wych*. *Ailgylcha,* a *Caru Bwyd, Casáu Gwastraff*
- Gweithio gyda sefydliadau lleol, grwpiau busnes ac arweinwyr busnes i hyrwyddo ailddefnyddio a lleihau gwastraff
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau cyllid economi gylchol
- Cynnal digwyddiadau addysgol ailddefnyddio ac ailgylchu mewn ysgolion ac yn y gymuned yn y Ganolfan Ymwelwyr, Parc Eco Sir Benfro
- Ailgylchu masnachol mewn digwyddiadau – cefnogi trefnwyr a sefydliadau i leihau gwastraff, lleihau halogiad ac ailgylchu mwy, gan arwain at wasanaeth mwy costeffeithiol i bob parti

**Cydweithio – gweithio gyda'n gilydd**

Gweithio gyda chwmnïau ailddefnyddio trydydd sector lleol a grwpiau cymunedol. Byddwn yn parhau i gydweithio â sefydliadau partner a hyrwyddo eu gwaith i annog ailddefnyddio ac addasu at ddibenion eraill, gan gynnwys gweithdai trwsio a chaffis trwsio.

**Wrth ymyl y ffordd – gwell gwasanaeth casglu gwastraff swmpus, gyda mwy o ffocws ar ailddefnyddio**

Fel rhan o'r contract casglu gwastraff swmpus newydd, byddwn yn adolygu'r trefniadau casglu er mwyn ehangu'r ystod o opsiynau sydd ar gael i'r cyhoedd, cynyddu'r potensial i ailddefnyddio, a gwella cynaliadwyedd y gwasanaeth a'r system archebu ar gyfer defnyddwyr.

**Canolfannau gwastraff ac ailgylchu a siopau ailddefnyddio**

Yn amodol ar y cyllid sydd ar gael ar gyfer datblygu ein safleoedd yn y dyfodol:

- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddarparu rhaglen ailddefnyddio ac atgyweirio ar y cyd â'r economi gylchol
- Byddwn yn ei gwneud yn haws i drigolion ailddefnyddio a rhoi eitemau i'w hailddefnyddio trwy ddatblygu canolfan ailddefnyddio ac adfer yn Winsel, gan gysylltu â grwpiau cymunedol ac elusennau (yn amodol ar gyllid)
- Byddwn yn galluogi dod o hyd i eitemau ailddefnyddio ym mhob safle i borthi'r ganolfan ailddefnyddio ac adfer newydd a gweithio gyda phartneriaid cymunedol i wella mynediad i drigolion ar draws y sir
- Byddwn yn darparu gwell cyfleusterau ailddefnyddio mewn canolfannau gwastraff ac ailgylchu i leihau gwastraff a chynyddu effeithlonrwydd adnoddau a gweithgarwch economaidd

## Blaenoriaeth 2 – Adeiladu ar ein perfformiad ailgylchu yn unol â sero net

Ein huchelgais yw sicrhau bod ein cyfradd ailgylchu yn parhau i gyrraedd targedau ailgylchu statudol presennol ac yn y dyfodol er mwyn atal deunyddiau rhag cael eu taflu'n ddiangen, hyrwyddo economi gylchol, a chyrraedd targedau carbon sero net.

Ar hyn o bryd, gellir ailgylchu 48% o ddeunyddiau yn y bin gweddilliol gan ddefnyddio gwasanaethau presennol ac felly mae angen i ni sicrhau nad yw'r eitemau hyn yn cael eu taflu yn ddiangen.

Mae Sir Benfro wedi ymrwymo i fod yn gyngor carbon sero net erbyn 2030 ac yn cefnogi camau gweithredu datgarboneiddio ehangach ledled y sir.Rydym o'r farn y bydd ein blaenoriaeth datgarboneiddio yn cyfrannu'n benodol at y nodau llesiant cenedlaethol a ganlyn:

- Cymru gydnerth
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

### Yr hyn rydym yn ei wneud ar hyn o bryd:

- Gwasanaeth ailgylchu wythnosol cynhwysfawr yn cyflawni 72% o ailgylchu – deunyddiau wedi'u gwahanu yn y tarddle i sach las ar gyfer cardbord, sach goch ar gyfer caniau plastig a chartonau, blwch glas ar gyfer papur, a blwch gwyrdd ar gyfer gwydr. Gofynnir i ddeiliaid tai ddefnyddio bagiau plastig bach ar gyfer batris
- Casgliadau gwastraff bwyd wythnosol gyda chadis cegin a chadis allanol (gyda bagiau cadi am ddim) yn cael eu darparu
- Ar gyfer gwastraff gweddilliol – tri bag bob tair wythnos. Gellir prynu bagiau atal gwylanod os oes angen
- Gwasanaeth gwastraff gardd y codir tâl amdano bob pythefnos rhwng mis Chwefror a mis Tachwedd, sydd ar gael i gartrefi a busnesau
- Opsiwn i brynu blwch troli yn lle'r opsiwn blwch a bag safonol
- Gwasanaeth cynhyrchion hylendid amsugnol gyda chasgliadau bob pythefnos y gall cartrefi danysgrifio iddo yn rhad ac am ddim
- Bagiau cwad ar gael ar gyfer casgliadau â chymorth neu'r rhai â gofynion sy'n seiliedig ar symudedd
- Mae gan Barc Eco Sir Benfro fesurau arbed dŵr ac ynni wedi'u dylunio a'u cynnwys
- Paneli solar ar lawer o'n hadeiladau
- Dwy fan drydan gyda chynlluniau gael pedair arall yn 2024
- Adrodd ar ein hôl troed carbon gwastraff i Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru bob chwarter

### Yr hyn yr ydym am ei gyflawni:

Bydd y Gwasanaethau Amgylcheddol yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau rheng flaen gyda gwell gwydnwch, cynaliadwyedd ac effeithlonrwydd gwasanaeth.

Byddwn yn cyflawni'r canlynol:

- Parhau i gyrraedd ein targedau ailgylchu statudol
- Cynnal ansawdd deunyddiau ailgylchadwy i uchafu gwerth incwm i'r cyngor
- Ehangu'r gwasanaeth ailgylchu wrth ymyl y ffordd i'w gwneud hi'n haws ailgylchu mwy o ddeunyddiau gartref, cynyddu ailgylchu, a hyrwyddo cylcholrwydd deunyddiau
- Lleihau swm y gwastraff gweddilliol, trwy adolygu amlder a chapasiti casgliadau gwastraff gweddilliol, i gynyddu incwm ailgylchu a lleihau costau gwaredu
- Chwilio'n barhaus am welliannau i wasanaethau ac arbedion effeithlonrwydd sy'n darparu mwy am lai
- Gwneud newidiadau i'r gwasanaeth, cyfleusterau a chontractau yn unol â blaenoriaethau corfforaethol y cyngor o sero net erbyn 2030

### Sut byddwn yn cyflawni hyn:

Trwy ddarparu gwasanaeth ailgylchu cynhwysfawr sy'n cynyddu cyfleoedd i drigolion, ymwelwyr a busnesau ailddefnyddio ac ailgylchu mwy.

**Gweithrediadau'r Gwasanaethau Amgylcheddol**

- Rhoi newidiadau ar waith i hyrwyddo lleihau allyriadau carbon o weithrediadau'r Gwasanaethau Amgylcheddol, boed hynny'n oleuadau, yn cynhyrchu ynni i bweru ein swyddfeydd a'n hadeiladau ym Mharc Eco Sir Benfro, neu o allyriadau egsôst ein fflyd cerbydau
- Gweithredu ein gorsaf trosglwyddo gwastraff a depo hirdymor sy'n eiddo i Sir Benfro ac a reolir gan y cyngor, sef Parc Eco Sir Benfro, gan ganolbwyntio ar gynaliadwyedd ac effeithlonrwydd
- Ar y cyd â'r Tîm Trafnidiaeth Integredig, datblygu cynllun trafnidiaeth sy'n sicrhau pontio i fflyd allyriadau isel
- Adolygu a cheisio cyllid ar gyfer seilwaith i gefnogi'r newid i gerbydau tanwydd trydan/hydrogen
- Sicrhau cyllid i osod y seilwaith angenrheidiol i wefru cerbydau allyriadau isel iawn a chydweithio â seilwaith y Grid Cenedlaethol i alluogi hyn
- Hyrwyddo amcanion carbon trwy gaffael nwyddau a gwasanaethau

**Casgliadau gwastraff cartref wrth ymyl y ffordd**

Byddwn yn gweithio tuag at y nod hwn drwy wneud y canlynol:

- Cyflwyno deunyddiau newydd wrth ymyl y ffordd, gan ganolbwyntio ar eitemau trydanol bach a phlastig hyblyg
- Adolygu amlder y gwasanaeth gwastraff gweddilliol a chapasiti'r gwasanaeth gwastraff gweddilliol i annog mwy o ailgylchu a lleihau deunyddiau sy'n seiliedig ar ffosiliau yn y gwastraff gweddilliol i gyfyngu ar effaith y Cynllun Masnachu Allyriadau. Bydd amrywiaeth o opsiynau'n cael eu hystyried, gan gynnwys symud i gasgliad bob pedair wythnos a lleihau capasiti, h.y. tri bag dros bedair wythnos
- Cynnal ymarfer ailgyfeirio yn dilyn symud i'r parc eco – gan sicrhau casgliadau gwastraff effeithlon a chynaliadwy
- Gwella gwasanaethau cymorth megis cymorth garej, TG a chan yr Uned Fusnes i sicrhau bod y gwasanaethau rheng flaen yn rhedeg yn esmwyth ac yn effeithlon
- Adolygu systemau cyfredol sy'n ymwneud â cheisiadau am wasanaethau i symleiddio profiad/adborth y cwsmer

**Canolfannau gwastraff ac ailgylchu**

Byddwn yn gweithio tuag at y nod hwn drwy wneud y canlynol:

- Moderneiddio ein canolfannau gwastraff ac ailgylchu i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion trwyddedu modern newydd
- Parhau i adolygu darpariaeth canolfan gwastraff ac ailgylchu yn unol â'n dyletswyddau statudol a'r galw am gyfleusterau
- Cynnydd gyda'r amcan hirdymor i ddarparu canolfan gwastraff ac ailgylchu newydd yn y parc eco i gymryd lle'r ganolfan Winsel bresennol a datblygu safle Winsel fel cyfleuster ailddefnyddio ac adfer gyda chysylltiadau â'r trydydd sector a'r gymuned
- Gwahanu mwy o ddeunyddiau fel plastig anhyblyg i gynyddu ailgylchu, lleihau costau gwaredu, a chynhyrchu incwm lle bynnag y bo modd
- Parhau i wneud gwelliannau i'r system archebu ar gyfer preswylwyr i'w gwneud yn haws iddynt gael mynediad at y gwasanaeth
- Parhau i chwilio am farchnadoedd ar gyfer deunyddiau anodd eu hailgylchu

**Gwasanaethau gwastraff masnach ac ailgylchu**

Byddwn yn parhau i weithio gyda busnesau lleol a grwpiau busnes i sicrhau bod ganddynt yr holl wybodaeth angenrheidiol fel eu bod yn cydymffurfio'n gyfreithiol ac yn gweithio yn unol â'u gofynion dyletswydd gofal a'r Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle.

Byddwn yn ceisio casglu deunyddiau ychwanegol o eiddo masnachol, gan gynnwys yr holl decstilau ac eitemau trydanol bach, a sicrhau bod busnesau'n barod ar gyfer cam nesaf y Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle.

Trwy ymgysylltu'n weithredol â busnesau, ein nod yw sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt i leihau eu gwastraff a hyrwyddo lleihau ac ailddefnyddio gwastraff wrth ddarparu eu gwasanaethau. Byddwn yn datblygu a thyfu'r gwasanaeth gwastraff masnach ac ailgylchu ac yn hyrwyddo trosglwyddo ymddygiadau ailgylchu o'r cartref i fusnesau ac ysgolion.

**Twristiaeth**

Mae Sir Benfro yn canolbwyntio'n gynyddol ar dwristiaeth gynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys mentrau i leihau gwastraff a hyrwyddo ailgylchu ac addysg am bwysigrwydd gwarchod yr amgylchedd lleol. Byddwn yn gweithio gyda busnesau, asiantaethau gosod tai gwyliau, cwmnïau rheoli a chwmnïau glanhau i sicrhau cydymffurfedd, yn bennaf drwy roi gwybodaeth a chyngor. Byddwn yn parhau i gynorthwyo gosodiadau gwyliau a busnesau fel ei gilydd i sicrhau eu bod yn bodloni eu rhwymedigaethau cyfreithiol ac yn canolbwyntio ar ddull atal ar gyfer newid ymddygiad ac atal diffyg cydymffurfio yn y dyfodol.

:

## Blaenoriaeth 3 – Gwella cynaliadwyedd ein strydoedd, traethau a mannau gwyrdd

Cynnal mannau sy'n diwallu anghenion y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol, gan gydbwyso cadwraeth ecolegol gyda mwynhad a hygyrchedd cymunedol.

### Yr hyn rydym yn ei wneud ar hyn o bryd:

- Mae'r tîm tiroedd gyda chefnogaeth cytundebau allanol ar hyn o bryd yn cynnal 383 o barcau a mannau yn yr awyr agored, yn ogystal â nifer o ysgolion ac asedau cyhoeddus a chymunedol, trwy gytundebau lefel gwasanaeth
- Mae tîm y Gwasanaethau Amgylcheddol hefyd yn arolygu ac yn rheoli 45 o fannau chwarae'r cyngor a 63 o fannau chwarae ychwanegol ar ran cynghorau tref a chymuned drwy gytundebau lefel gwasanaeth. Hwyluso trosglwyddo asedau cymunedol o gyfleusterau cymunedol
- Galluogi cyflawni prosiectau bioamrywiaeth ar y cyd â Partneriaeth Natur Sir Benfro a rheoli bywyd gwyllt / glaswelltir
- Cynnal gerddi cymunol ar draws y sir
- Gwasanaethu 1,084 o finiau sbwriel ac ailgylchu ar strydoedd a thraethau ledled Sir Benfro
- Ymgymryd â gwaith glanhau strydoedd a thraethau ar draws Sir Benfro i safon uwch na chyfartaledd Cymru yn unol â'r System Reoli ar gyfer Archwilio'r Amgylchedd Lleol (LEAMS)
- Cynnwys y gymuned: Mae cymunedau a busnesau lleol yn aml yn cymryd rhan mewn ymdrechion i gadw'r ardal yn lân ac yn rheoli gwastraff yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys glanhau traethau, ymgyrchoedd i leihau plastig untro, a thoiledau cyhoeddus a redir gan y gymuned
- Gwelliannau seilwaith: Buddsoddwyd mewn gwella seilwaith rheoli gwastraff er mwyn cynyddu nifer y biniau ailgylchu, ond mae'r rhain yn cyflwyno lefelau halogi uchel

### Yr hyn yr ydym am ei gyflawni:

- Darparu atebion cynaliadwy a chosteffeithiol i gynnal a gwella ansawdd amgylchedd lleol y parth cyhoeddus a'i gyfleusterau
- Gwelliannau mewn gwydnwch ecolegol trwy brosiectau sy'n ymwneud â chadwraeth bioamrywiaeth, gwella ecosystemau, ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd trwy ddiogelu cynefinoedd

### Sut byddwn yn cyflawni hyn:

**Glanhau strydoedd**

- Darparu cyfleusterau sbwriel stryd a thraeth yn unol â dyletswyddau statudol a defnydd priodol gan y cyhoedd a busnesau
- Adolygiad o wasanaethau glanhau tir cyhoeddus, h.y. darparu biniau sbwriel "wrth fynd" a gweithrediad ysgubo strydoedd, i sicrhau gwasanaeth cynaliadwy ac effeithlon. Ystyried lleoliad, defnydd, opsiynau ailgylchu ac amlder casgliadau, a cheisio lleihau defnydd amhriodol, h.y. gwastraff domestig a masnachol
- Edrych ar offer rheoli gwastraff clyfar amgen, synwyryddion lefel llenwi a chyfathrebu diwifr
- Gyda gwell technoleg, edrych ar optimeiddio llwybrau, yn seiliedig ar ddata amser real, gan gysylltu â mannau problemus tymhorol
- Parhau i gefnogi gweithrediadau 'Big Clean' drwy wirfoddoli mae hon yn sesiwn glanhau gwanwyn ar gyfer eich cymuned leol; Mae gweithredwyr, trigolion a busnesau Gwasanaethau Amgylcheddol yn cydweithio i ogoneddu Sir Benfro.Byddwn yn gwella ein cyfathrebu ac ymgysylltu â thrigolion, busnesau ac ymwelwyr â Sir Benfro i gadw ein strydoedd yn lân ac yn ailgylchu mwy o ddeunydd wrth gasglu sbwriel
- Gweithio gyda phartneriaid i gefnogi mentrau troseddau amgylcheddol
- Cefnogi cytundebau lefel gwasanaeth gyda chynghorau tref a chymuned

**Cynnal a chadw tiroedd, parciau a mannau yn yr awyr agored**

- Parhau i gynorthwyo trosglwyddo asedau cymunedol a mentrau cymunedol trwy weithio gyda chynghorau tref a chymuned, cymunedau a’r trydydd sector
- Gwarchod a gwella bioamrywiaeth ymhellach. Adolygu opsiynau bioamrywiaeth ar draws ein hasedau amwynder i gynyddu gwydnwch ecoleg trwy ddarparu opsiynau cynaliadwy megis ardaloedd blodau gwyllt, i hyrwyddo bioamrywiaeth, cynorthwyo bywyd gwyllt lleol fel peillwyr ac adar, lleihau’r defnydd o blaladdwyr, a gwella iechyd y pridd
- Gweithio tuag at ddatganiad Caeredin, ac amddiffyn tir a môr yn unol â 30x30 lle mae o leiaf 30% o’r tir a’r môr yn cael ei warchod ar gyfer natur erbyn 2030
- Addysg ac ymgysylltu amgylcheddol yn annog grwpiau cymunedol i gymryd rhan mewn cynnal a chadw a stiwardiaeth mannau gwyrdd
- Gwydnwch i’r newid yn yr hinsawdd gyda mwy o ddefnydd o wlyptiroedd a pharciau i amsugno dŵr dros ben, gan gynyddu’r llystyfiant
- Sicrhau bod mannau gwyrdd yn gallu addasu dros amser i gynnwys defnydd newydd, twf poblogaeth a heriau amgylcheddol esblygol

## Blaenoriaeth 4 – Ymgysylltu a chydymffurfio drwy newid ymddygiad

Rydym am sicrhau ein bod yn gwneud lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff cartref mor hawdd ac mor hygyrch â phosibl.

Byddwn yn parhau i gefnogi trigolion ar eu taith ailgylchu, ond byddwn hefyd yn gorfodi polisïau gwastraff a gweithgareddau anghyfreithlon megis tipio anghyfreithlon mewn modd sy’n deg a chadarn, lle bo angen.

### Yr hyn rydym yn ei wneud ar hyn o bryd:

- Mae gennym dîm o gynghorwyr amgylcheddol sy'n ymgysylltu â thrigolion i sicrhau eu bod yn cael pob cyfle i gymryd rhan lawn yn y gwasanaeth a ddarparwn i ailgylchu cymaint â phosibl a lleihau gwastraff
- Rydym yn defnyddio’r ymgyrchoedd cenedlaethol fel “Bydd Wych” a “Gwnewch fel y Jonesiaid” ar gyfer ymgysylltu, i annog lleihau’r gwastraff a gynhyrchir gan gartrefi a busnesau, a gwella ailgylchu wrth ymyl y ffordd
- Rydym yn cefnogi contract Sir Benfro gyda WISE i ymdrin â throseddau amgylcheddol megis baw cŵn, taflu sbwriel a thipio anghyfreithlon

### Yr hyn yr ydym am ei gyflawni

- Darparu rhaglen gyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol
- Sicrhau bod cartrefi yn cymryd rhan ac yn ailgylchu eu holl gwastraff ailgylchadwy trwy gefnogi trigolion a busnesau sy'n cael trafferth wrth ailgylchu a rheoli eu gwastraff
- Annog deiliaid tai, busnesau ac ymwelwyr â Sir Benfro i ailgylchu gartref, yn y gwaith ac “wrth fynd”
- Atal troseddau amgylcheddol ledled Sir Benfro, gan gynnwys tipio anghyfreithlon a thaflu sbwriel

### Sut byddwn yn cyflawni hyn:

Byddwn yn ymgysylltu’n rhagweithiol â phreswylwyr a allai fod yn cael trafferth rheoli eu gwastraff, gan gynnwys ymweld â’u heiddo, i gynnig cymorth trwy roi cyngor a mesurau ymarferol i ddatrys problemau.

Byddwn yn hyrwyddo’n gyson sut y gall trigolion, ymwelwyr a busnesau gael gwared ar eu gwastraff yn gywir, yn unol â’r hierarchiaeth wastraff.

Byddwn yn ei gwneud yn glir, trwy gyfathrebu’n rheolaidd, y bydd yr awdurdod yn cymryd camau gorfodi yn erbyn tipio anghyfreithlon a thaflu sbwriel ac na fydd yn derbyn gwastraff y tu allan i gynhwysydd a gyflwynir wrth ymyl y ffordd i'w gasglu, ac y bydd yn cymryd camau gweithredu a beth fydd y canlyniadau hynny.

Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy amrywiaeth o fesurau, gan gynnwys fel a ganlyn:

- Hyrwyddo pwysigrwydd cynaliadwyedd amgylcheddol, gan ennill calonnau a meddyliau fel bod pawb yn ein cymunedau yn cael eu hysbrydoli i wneud eu rhan
- Ymgysylltu â chartrefi a busnesau ynghylch rhwystrau i ailgylchu a sut i’w gwneud hi’n haws llywio penderfyniadau yn y dyfodol drwy ein tîm gwastraff masnach, cynghorwyr addysg, tîm gorfodi a chyfathrebu cyffredinol
- Byddwn yn grymuso criwiau casglu gweithredol i nodi cartrefi a allai fod yn ei chael yn anodd rheoli eu gwastraff fel y gellir darparu ymyrraeth gynnar a chymorth i osgoi gwaethygu
- Parhau ag ymgyrchoedd targedig i annog ailgylchu, yn enwedig ar gyfer cartrefi nad ydynt yn cyfrannu llawer at y cynlluniau ailgylchu
- Hyrwyddo ymweliadau addysgol yn ein parc eco i wella tryloywder o ran sut rydym yn casglu ac yn rheoli gwastraff i'w ailgylchu
- Cyfathrebu â phreswylwyr a busnesau ynghylch sut y gallant leihau eu hôl troed carbon a pharhau i gysylltu trwy roi negeseuon ar leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu. Bydd hyn yn cael ei gyflwyno drwy ddefnyddio ymgyrchoedd wedi'u targedu, gan ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol, sioeau teithiol, a churo ar ddrysau
- Ymgysylltu â thrigolion a pharhau i ddefnyddio ymgyrchoedd cenedlaethol a lleol, gan gynnwys “Gwnewch fel y Jonesiaid” i barhau i hyrwyddo ailgylchu

- Annog atgyweirio ac ailddefnyddio trwy Gyngor Sir Penfro a phartneriaid trydydd sector
- Hyrwyddo defnydd cywir o ailgylchu “wrth fynd” trwy adolygu arwyddion a gwybodaeth

## 10. CYFLAWNI EIN HAMCANION A MONITRO CYNNYDD

Bydd ffocws tîm y Gwasanaethau Amgylcheddol yn alinio â'r strategaeth gorfforaethol a dyletswyddau deddfwriaethol/rheoleiddio yn wyneb yr heriau a'r cyfleoedd sydd wedi'u hamlinellu yn y strategaeth hon. Yr amcan trosfwaol yw darparu gwasanaeth effeithlon ac effeithiol, gan fodloni gofynion arbedion i alluogi cyllideb gytbwys i'r awdurdod.

Byddwn yn mesur ein perfformiad yn erbyn ein nodau strategol a blaenoriaethau ein strategaeth, gan ddefnyddio dangosyddion perfformiad i olrhain ein canlyniadau i'n hamcanion a sicrhau ein bod yn cyrraedd targedau ac yn cynnig gwerth am arian.

Drwy gydol y flwyddyn, byddwn yn adrodd ar gynnydd yn erbyn set o ddangosyddion perfformiad allweddol sy'n ymwneud â chyflawni ein blaenoriaethau.

Byddwn hefyd yn rhoi diweddariad i’r trigolion a'r gymuned yn rheolaidd am ein perfformiad yn erbyn targedau.

**Tabl 1: Sut rydym yn perfformio ar hyn o bryd:**

| Gwasanaeth | Mesur | Uned | Canolrif Cymru | Safle allan o’r 22 awdurdod lleol yng Nghymru |
|---|---|---|---|---|
| Wrth ymyl y ffordd* | Cynnyrch sych (gros) – kg/cartref/blwyddyn | 178 | 181 | 15 |
| | Cynnyrch bwyd – kg/cartref/blwyddyn | 129 | 91 | 1 |
| | Cynnyrch gwastraff gardd – kg/cartref/blwyddyn | 46 | 73 | 14 |
| | Cynnyrch gwastraff gweddilliol – kg/cartref/blwyddyn | 166 | 282 | 22 |
| Tipio anghyfreithlon** | Nifer y digwyddiadau | 2022/23 – 579<br>2023/24 – 683 | 2022/23 – 1,812<br>2023/24 – I'w gadarnhau | |
| Glendid strydoedd | Glendid strydoedd Sir Benfro wedi’i fesur gan ddefnyddio methodoleg y System Reoli ar gyfer Archwilio'r Amgylchedd Lleol (LEAMS) | Glendid cyffredinol 70.6<br><br>% y strydoedd gradd B neu’n uwch na 98 | Glendid Cymru gyfan 69.4<br><br>% y strydoedd gradd B neu’n uwch na 95.1 | |

*Ffynhonnell – Dangosfwrdd data WRAP 2022/23

** Mae’r ystadegau’n seiliedig ar yr adroddiadau a wnaed gan awdurdodau lleol i’r gronfa ddata WasteDataFlow. Nid yw’r ystadegau’n ymdrin ag achosion o dipio anghyfreithlon ar dir preifat, ac ni fydd pob digwyddiad o dipio anghyfreithlon yn cael ei adrodd i’r awdurdod lleol.

**Tabl 2: Yr hyn y byddwn yn ei fesur:**

| Blaenoriaeth strategol | Mesur | Uned | Amlder |
|---|---|---|---|
| **Gwelliannau o ran ailddefnyddio ac ailgylchu ac effaith ymgysylltu a newid ymddygiad** | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyrraedd targedau ailgylchu | Cyfran wedi'i hailgylchu WasteDataFlow | % | Chwarterol |
| Lleihau gwastraff cyffredinol | Cilogram o wastraff gweddilliol a gynhyrchir fesul blwyddyn fesul cartref | Kg/cartref/ blwyddyn | 6 mis |
| Gwelliannau ailgylchu | Cilogram o ddeunyddiau ailgylchu a gynhyrchir fesul blwyddyn fesul cartref | Kg/cartref/ blwyddyn | 6 mis |
| Cynyddu ailddefnyddio | Cyfeintiau wedi'u dargyfeirio i'w hailddefnyddio | Kg/cartref/ blwyddyn | 6 mis |
| **Symud tuag at sero net** | | | |
| Lleihau carbon | % y gostyngiad o flwyddyn i flwyddyn mewn allyriadau carbon o’n gweithgareddau o gymharu â blwyddyn sylfaen 2021 | % | Bob blwyddyn |
| Darparu cerbydau allyriadau isel iawn | Nifer y cerbydau allyriadau isel iawn a ddefnyddir gan y gwasanaeth | Nifer | Bob blwyddyn |
| **Gwelliannau mewn gwytnwch ecolegol** | | | |
| Nifer y prosiectau ecolegol | | Nifer y prosiectau | Bob blwyddyn |
| **Ansawdd yr amgylchedd lleol** | | | |
| Nifer yr achosion o dipio anghyfreithlon | Mae'r ystadegau'n seiliedig ar yr adroddiadau a wnaed gan awdurdodau lleol i'r gronfa ddata WasteDataFlow. Nid yw’r ystadegau’n ymdrin ag achosion o dipio anghyfreithlon ar dir preifat, ac ni fydd pob digwyddiad o dipio anghyfreithlon yn cael ei adrodd i’r awdurdod lleol. | Nifer y digwyddiadau | Chwarterol |
| Glendid strydoedd | Glendid strydoedd Sir Benfro wedi’i fesur gan ddefnyddio methodoleg y System Reoli ar gyfer Archwilio'r Amgylchedd Lleol (LEAMS) | Dangosydd glendid<br><br>% y strydoedd gradd B neu’n uwch | |